

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Rhaglan i Drefynwy, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2021**

**The A40 Trunk Road (Raglan to
Monmouth, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2021**

Gwnaed 27 Ebrill 2021

Made 27 April 2021

Yn dod i rym 4 Mai 2021

Coming into force 4 May 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Rhaglan i Drefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mai 2021.

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Raglan to Monmouth, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and this Order comes into force on 4 May 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 4 Mai 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Casnewydd i Gaerwrangon.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

27 Ebrill 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r de y gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Dixon, Trefynwy hyd at y man lle y mae’n uno â’r ffordd ymuno tua’r de yn Llanfihangel Troddi.

Y darn o gerbyttffordd tua’r gogledd y gefnffordd sy’n ymestyn o’r trwyniad â’r ffordd ymadael tua’r gogledd wrth Gyfnewidfa Rhaglan yr A449 hyd at ei chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Dixon, Trefynwy.

Y darn o ffordd ymuno tua’r gogledd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Newport to Worcester trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 4 May 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers

Dated

27 April 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Dixon Roundabout, Monmouth to its merge with the southbound entry slip road at Mitchel Troy.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing with the northbound exit slip road at the A449 Raglan Interchange to its junction with the circulatory carriageway of Dixon Roundabout, Monmouth.

The length of the A40/A449 northbound entry slip road at Raglan Interchange.

Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sydd 527 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt pont Fferm St Dials.

The length of the layby adjacent to the northbound carriageway of the trunk road that is located 527 metres south-west of the centre-point of St Dials Farm bridge.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(RHAGLAN I DREFYNWY, SIR FYNWY)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, ger Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro gerbydau rhag mynd ar y darnau o'r A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Mai 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn dod i rym yn y lle cyntaf ar 4 Mai 2021 ac y bydd yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 7 Mai 2021: bydd y ffordd yn cael ei chau dros nos unwaith eto o 4 – 7 Awst 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Ni fydd y ddwy gerbyttffordd ar gau ar yr un pryd.

Dim ond yn ystod y cyfnodau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cylchfan Dixon, Trefynwy hyd at y man lle y mae'n uno â'r ffordd ymuno tua'r de yn Llanfihangel Troddi.

**THE A40 TRUNK ROAD (RAGLAN TO
MONMOUTH, MONMOUTHSHIRE)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road near the Gibraltar Tunnels, Monmouth, Monmouthshire.


The effect of the Order is to temporarily prohibit vehicles from proceeding on the lengths of the A40 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The Order comes into force on 4 May 2021. The temporary prohibition is first expected to come into force on 4 May 2021 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 7 May 2021: a further closure will be in force overnight from 4 – 7 August 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Both carriageways will not be closed at the same time.

Although the Order is only expected to operate during the periods specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Dixon Roundabout, Monmouth to its merge with the southbound entry slip road at Mitchel Troy.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'r trwyniad â'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Rhaglan yr A449 hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Dixon, Trefynwy.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darn o'r gilfan sy'n gyfagos i gerbyttfordd tua'r gogledd y gefnffordd sydd 527 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt pont Fferm St Dials.

Y Llwybrau Eraill

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de yw mynd ar yr A40 tua'r gogledd o Gylchfan Dixon hyd at y gylchfan yn Rhosan ar Wy, tua'r dwyrain ar yr A40 hyd at Gylchfan Highnam, tua'r de ar yr A48 hyd at Gylchfan Highbeeche, Cas-gwent a'r A466 hyd at Gylchfan Newhouse, Cas-gwent i ymuno â'r M48 tua'r gorllewin a pharhau tua'r gorllewin i ymuno â'r M4 wrth Gyffordd 23, parhau hyd at Gyffordd 24 (Coldra) yna dilyn yr A449 a'r A40 tua'r gogledd i Drefynwy. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Dylai cerbydau nad ydynt yn mynd ar y draffordd ddilyn y llwybr uchod ond wrth Gylchfan Highbeeche, Cas-gwent dylent fynd ar yr A48 tua'r gorllewin i Gylchfan Coldra yna dilyn yr A449.

Dylai cerbydau nwyddau trwm ddilyn yr A40 tua'r gogledd o Gylchfan Dixon i Rosan ar Wy, mynd ar yr M50 i Gyffordd 8 yr M5 a mynd ar yr M5 tua'r de i Gyffordd 15, cymryd yr allanfa tua De Cymru ar yr M4 tua'r gorllewin i Gyffordd 24 (Coldra) ac ymadael ar yr A449 a'r A40 tua'r gogledd i Drefynwy. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

O ran cau ffordd ymuno tua'r gogledd yr A40/A449, dylai traffig yr A40 ymuno â'r A40/A449 tua'r de wrth Gyfnewidfa Rhaglan a dychwelyd tua'r gogledd ar gylchfan Coldra.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing with the northbound exit slip road at the A449 Raglan Interchange to its junction with the circulatory carriageway of Dixon Roundabout, Monmouth.

The length of the A40/A449 northbound entry slip road at Raglan Interchange.

The length of the layby adjacent to the northbound carriageway of the trunk road that is located 527 metres south-west of the centre-point of St Dials Farm bridge.

Alternative routes

The alternative route for southbound vehicles is via the northbound A40 from Dixon Roundabout to the roundabout at Ross on Wye, eastbound A40 to Highnam Roundabout, southbound A48 to Highbeeche Roundabout, Chepstow and A466 to Newhouse Roundabout, Chepstow to join the westbound M48 and continue westbound to join the M4 at Junction 23, proceed to Junction 24 (Coldra) then follow the northbound A449 and A40 to Monmouth. Vice versa for northbound traffic.

Non-motorway traffic should follow the above diversion but at Highbeeche Roundabout, Chepstow proceed on the westbound A48 to Coldra Roundabout then follow the A449.

HGVs should follow the northbound A40 from Dixon Roundabout to Ross on Wye, take the M50 to the M5 Junction 8 and proceed on the southbound M5 to Junction 15, take the South Wales exit onto the westbound M4 to Junction 24 (Coldra) and exit onto the northbound A449 and A40 to Monmouth. Vice versa for northbound traffic.

For the closure of the A40/A449 northbound entry slip road, A40 traffic should join the southbound A40/A449 at Raglan Interchange and return northbound via Coldra roundabout.